# Beth yw Bwystfilod Bach?

Anifeiliaid bach yw bwystfilod bach.

Mae bwystfilod bach neu bwystfilod mân yn derm fedrwn ddefnyddio ar bob math o wahanol anifeiliaid sydd yn cael eu cynnwys mewn ‘ffyla’ gwahanol mewn strwythur gwyddonol.

Gall y gair bwystfilod bach cael ei ddefnyddio ar gyfer creaduriaid sydd yn cynnwys trychfilod/pryfed (gyda 6 coes), pryf copynnau (gyda 8 coes), gwlithod, malwod, pryfaid lludw, nadroedd cantroed, nadroedd miltroed a phryfaid genwair.




Dychmygwch eich bod yn greadur bach .. Sut bydd y byd o’ch cwmpas yn edrych?

Beth am gwneud safari bwystfilod mân. (Gweithgaredd 20 yn y pecyn yma gan Gyfoeth Naturiol Cymru)

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

# Bwystfilod bach: lle gawn hyd iddynt?

Mae bwystfilod yn symud mewn pob math o ffyrdd gwahanol.

Dyma rhai o'r symudiadau posibl, allwch chi roi cynnig ar geisio gwneud y symudiadau yma? Cofiwch sicrhau bo' gennych ddigon o le!

hedfan sboncian ymlusgo llithro neidio

Gall ei ffordd o symud yn ogystal â beth maen nhw'n bwyta yn mynd i effeithio lle gawn hyd iddynt.

Meddyliwch; ble fydd rhaid chwilio am y bwystfilod yn y goedwig …?

Efallai y bydd rhaid i chi fynd lawr ar eich pengliniau i gael hyd iddynt, neu chwilota yn y dail uwchben!



© Anita Daimond

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU CELTIC RAINFORESTS WALES

# Bwystfilod bach: sut mae nhw’n bwydo?

Mae gan y bwystfilod bach i gyd rôl wahanol o fewn yr ecosystem.

Mae **detritysydd** yn casglu deunyddiau marw (detritws) ac yn eu bwyta i greu pridd cyfoethog.

Mae **llysysyddion** yn bwyta llystyfiant (planhigion).

Yna mae’r llysysyddion yn cael eu bwyta gan **gigysyddion** (anifeiliaid sy’n bwyta anifeiliaid eraill).

Mae rhai hefyd yn **beillwyr** sy’n helpu planhigion i atgenhedlu trwy daenu paill.

Mae pob un o’r rolau hyn yn bwysig i fywyd yn y goedwig.



© Anita Daimond

Cofiwch gall cigysyddion cael ei fwyta gan gigysyddion eraill hefyd. Meddyliwch pa anifail gall bwyta bwystfil bach sydd yn gigysydd …

COeDWIGOeDD GLAW CeLTAIDD CYMRU
CeLTIC RAINFOReSTS WALeS

# Mae anifeiliaid y Goedwig Law yn bwydo ar blanhigion, ffwng ag anifeiliaid eraill

Fedrwch chi roi enghraifft o:

- Anifail sydd yn bwyta planhigyn ……………………………………………………………………
- Anifail sydd yn bwyta ffwng ……………………………………………………………………….
- Anifail sydd yn bwyta anifail ……………………………………………………………………….
- Anifail sydd yn bwyta pethau sydd wedi marw ……………………………………………….
- Anifail sydd yn bwyta baw anifeiliaid ……………………………………………………………
- Anifail sydd yn bwyta hadau coed …………………………………………………………………




Defnyddiwch y daflen yma os hoffwch

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

# Fedrwch chi baru'r disgrifiadau gyda'r fath o anifail cywir?

Gwyrdd Godre Pinc *Pseudoips prasinana*




| | |
|---|---|
| Rwy'n symud o dan y ddaear gan dynnu deunydd planhigion i'r pridd a'i fwyta. | Rwy'n beilliwr |
| Rwy'n symud o flodyn i flodyn yn casglu neithdar a phaill ac yn peillio planhigion. | Rwy'n detritysydd |
| Rwy'n symud ar hyd y ddaear yn casglu deunydd marw a'i fwyta. | Rwy'n llysysydd |
| Rwy'n symud ar hyd planhigion gan aros i fwyta'r coesynnau neu'r dail wrth fynd. | Rwy'n gigysydd |
| Rwy'n symud ar hyd y ddaear yn hela pryfaid a'u bwyta. | Rwy'n detritysydd |

Fedrwch chi ddarganfod beth mae lindys 'Gwyrdd Godre Pinc' yn bwyta? ('Green Silver Lines' yn Saesneg)

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

# Wnaethoch chi baru'r disgrifiadau gyda'r fath o anifail cywir?

Rwy'n symud o dan y ddaear gan dynnu deunydd planhigion i'r pridd a'i fwyta.

Rwy'n symud o flodyn i flodyn yn casglu neithdar a phaill ac yn peillio planhigion.

Rwy'n symud ar hyd y ddaear yn casglu deunydd marw a'i fwyta.

Rwy'n symud ar hyd planhigion gan aros i fwyta'r coesynnau neu'r dail wrth fynd.

Rwy'n symud ar hyd y ddaear yn hela pryfaid a'u bwyta.

Rwy'n beilliwr

Rwy'n detritysydd

Rwy'n llysysydd

Rwy'n gigysydd

Rwy'n detritysydd

Gwyrdd Godre Pinc *Pseudoips prasinana*




Beth arall hoffwch chi ddysgu am bwystfilod bach?

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

# Bwystfilod bach: sut fedrwn ddysgu mwy?

- Ewch allan er mwyn chwilio am fwystfilod bach eich hunain – cewch ddefnyddio ein taflen ar gyfer hel data wrth chwilio am fwystfilod bach mewn coedwig.
- Adnabod y bwystfilod bach 'dach chi'n darganfod – mae rhestr o ddolennau ac adnoddau defnyddiol yma.
- Edrychwch ar eich bwystfilod yn ofalus a meddyliwch am ble wnaethoch chi ddarganfod nhw a beth roedden nhw'n eu gwneud. Beth ydach chi'n meddwl mai nhw'n bwyta? Fedrwch chi ddysgu am eu cylchoedd byw? Beth arall fedrwch chi ddysgu amdanynt?




Pa blanhigion ag anifeiliaid sydd yn dibynnu ar y bwystfilod wnaethoch chi ddarganfod tybed?

Cewch ddysgu mwy am drychfilod a beth fedrwch chi wneud er lles bwystfilod bach gan Buglife.

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

# Dolennau defnyddiol

- https://www.buglife.org.uk/
- https://butterfly-conservation.org/butterflies/identify-a-butterfly
- https://butterfly-conservation.org/moths/identify-a-moth
- https://www.woodlandtrust.org.uk/trees-woods-and-wildlife/animals/
- https://www.wildlifetrusts.org/wildlife/how-identify/identify-caterpillars
- https://dnk4skl3hw8rq.cloudfront.net/assets/db4dd1fb1f9e25abe1f6206f456bb04bfcd32013/11._Minibeasts_-_Conservation_Education_-_YPTE.original.pdf?1411671011
- https://bit.ly/3DupfkE
- https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/natures-home-magazine/birds-and-wildlife-articles/food-chains/web-of-life/

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES